**SSCS3**

# Hysbysiad o apêl yn erbyn penderfyniad yr Adran Gwaith a Phensiynau – **Uned Adennill Iawndal**

Dylech ddefnyddio'r ffurflen hon i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Uned Adennill Iawndal yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) .  Ar gyfer penderfyniadau ynghylch budd-daliadau nawdd cymdeithasol, dylech ddefnyddio ffurflen SSCS1. Ar gyfer penderfyniadau ynghylch cynnal plant neu gynhaliaeth plant, dylech ddefnyddio ffurflen SSCS2.  Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, gweler y nodyn ar dudalen 7.

**Ynghylch y ffurflen hon**

Mae'r ffurflen hon yn eich helpu i ddarparu'r holl wybodaeth y mae'r tribiwnlys ei hangen i gofrestru eich apêl. Bydd hefyd yn sicrhau bod eich apêl yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol sy'n ofynnol dan y gyfraith.

**Sut i lenwi'r ffurflen hon**

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen hon a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU oni bai fod y ffurflen yn dweud wrthych am beidio â gwneud hynny. Rhaid i chi lenwi Adrannau 1, 2, 3, 4, 6, 7 a 9.

Os ydych eisiau dod i wrandawiad, rhaid i chi hefyd lenwi Adran 8. Os oes gennych gynrychiolydd, rhaid i chi lenwi Adran 5 hefyd.

**Beth i'w gynnwys gyda'r ffurflen hon**

Rhaid i chi gynnwys copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** sy'n dangos y penderfyniad yr ydych yn apelio yn ei erbyn. Nid oes angen ichi gynnwys tystiolaeth neu wybodaeth yr ydych eisoes wedi'i hanfon i'r Uned Adennill Iawndal gan y bydd yn ei hanfon atom fel rhan o'i hymateb.

## **Adran 1** YNGHYLCH Y PENDERFYNIAD YR YDYCH YN APELIO YN EI ERBYN

Mae'r adran hon yn sôn am yr **hysbysiad gorfodi i ailystyried.** Dyma'r llythyr a anfonwyd atoch gan yr Uned Adennill Iawndal yn egluro eu bod wedi ailedrych ar eich penderfyniad..

Ydy eich **hysbysiad gorfodi i ailystyried** yn dweud bod gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad? ☐ Ydy ☐ Nac ydy

Os nac ydy, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen yr adran 'A gaf i Apelio?' yn y llyfryn SSCS1A 'Sut i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau' cyn parhau â'r ffurflen.

Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod wedi atodi copi o'r **hysbysiad gorfodi i ailystyried** gyda'ch ffurflen apêl ☐

**Cofiwch gynnwys copi o'ch hysbysiad gorfodi i ailystyried gyda'ch ffurflen apêl.  Os na wnewch hynny, ni fyddwn yn gallu cofrestru eich apêl nes byddwch yn ei ddarparu**

A gafodd y taliad iawndal ei leihau yn unol ag adran 8  Deddf Nawdd Cymdeithasol (Adennill Budd-daliadau) 1997 neu reoliad 12 Rheoliadau Mesothelioma 2008? ☐ Do ☐ Naddo


© Hawlfraint y Goron  2018

## Adran 2 AMDANOCH CHI

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (rhowch fanylion)

Enw cyntaf

Cyfenw

Enw'r cwmni neu sefydliad (os yw'n berthnasol)

Address

Postcode

* Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

__ __ / __ __ / __ __ __ __

* Cewch adael y blychau hyn yn wag os ydych yn gwmni neu sefydliad sy'n gwneud yr apêl

* Rhif Yswiriant Gwladol

llythrennau | rhifau | llythyren

Eich cyfeirnod adennill iawndal

—

Cyfeirnod eich digolledwr/cynrychiolydd

Rhif ffôn

**Nodwch eich rôl yn y broses o adennill iawndal drwy roi tic yn un o'r blychau isod:**

☐ Fi yw'r digolledwr — ewch i Adran 3

☐ Fi yw cynrychiolydd y sawl sydd wedi'i anafu — llenwch Adran 3 a 4

☐ Fi yw cynrychiolydd y digolledwr — llenwch Adran 3 a 4

## Adran 3 YNGHLYCH Y SAWL SYDD WEDI'I ANAFU

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall (rhowch fanylion)

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni (DD/MM/BBBB)

__ __ / __ __ / __ __ __ __

Rhif Yswiriant Gwladolr

llythrennau | rhifau | llythyren

Cyfeirnod Adennill Iawndal

—

Rhif ffôn

Ewch i Adran 4

## Adran 4 YNGHYLCH Y DIGOLLEDWR

Enw'r cwmni

Address

Cod post

Cyfeirnod y digolledwr

Cyfeirnod adennill iawndal

—

Rhif ffôn

Ewch i Adran 5

## Adran 5 YNGHYLCH EICH CYNRYCHIOLYDD (os oes gennych gynrychiolydd)

Mae'r adran hon yn ymwneud â'ch cynrychiolydd (os oes gennych gynrychiolydd).

Ystyr cynrychiolydd yw rhywun sy'n gweithredu ar eich rhan mewn capasiti ffurfiol. Gall fod yn gyfreithiwr neu gynrychiolydd y digolledwr. Os enwch gynrychiolydd yma a rhoi eich llofnod yn Adran 9, bydd hyn yn ein hawdurdodi i ddelio â'ch apêl gyda'ch cynrychiolydd. Os ydych yn ansicr ynglŷn â hyn, darllenwch yr adran ' Ynglŷn â'ch Cynrychiolydd ' yn y llyfryn SSCS1A.

A oes gennych gynrychiolydd?

☐ Oes — Os oes, rhowch wybodaeth am yr unigolyn isod

☐ Nac oes — Os Nac oes, ewch i Adran 6

Enw'r sefydliad neu'r sawl sydd yn eich cynrychioli

Rhif ffôn

Cyfeiriad

Cyfeirnod eich achos

Cod post

Os ydych yn cael eich cynrychioli gan sefydliad a'ch bod yn gwybod enw'r sawl sy'n gweithredu ar eich rhan, rhowch wybod i ni isod

☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms ☐ Arall *(rhowch fanylion)*

Enw cyntaf

Cyfenw

Ewch i Adran 6

## Adran 6 YNGHYLCH EICH APÊL

**Seiliau'r apêl**

Yn yr adran hon rydym angen gwybod pam eich bod yn apelio. Ysgrifennwch yn eich geiriau eich hun y rhesymau pam eich bod yn anghytuno â'r penderfyniad i adennill iawndal. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU yn yr adran hon os yw eich llawysgrifen yn glir. Os na fyddwch yn llenwi'r adran hon, bydd yn oedi'r broses o ddelio â'ch apêl ac efallai y bydd eich ffurflen apêl yn cael ei dychwelyd. Am fwy o wybodaeth am seiliau apêl, cyfeiriwch at yr adran 'Ynghylch Eich Apêl' yn y llyfryn canllaw SSCS1A.

*(os bydd angen, defnyddiwch ddalen ar wahân i barhau)*

Ticiwch unrhyw un o'r blychau canlynol sy'n berthnasol i'r sail ar gyfer eich apêl:

- ☐ Mae'r swm, y gyfradd neu'r cyfnod a nodir yn y penderfyniad yn anghywir
- ☐ Mae'r penderfyniad yn dangos budd-daliad sydd heb ei dalu o ganlyniad i'r ddamwain, yr anaf neu'r clefyd
- ☐ Rhestrir budd-daliadau sydd heb eu talu ac nad ydynt yn debygol o gael eu talu i'r sawl a anafwyd
- ☐ Ni dalwyd yr iawndal o ganlyniad i'r ddamwain, yr anaf neu'r clefyd

**A yw'ch apêl o fewn amser?**

Yn ôl y gyfraith, **rhaid i'ch apêl gyrraedd y Tribiwnlys** ddim hwyrach nag un mis calendr ar ôl y dyddiad ar y llythyr yn dweud wrthych am yr hysbysiad gorfodi i ailystyried. Os bydd eich apêl yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn apêl hwyr a bydd angen i'r tribiwnlys gael gwybod pam ei bod yn hwyr.

A yw'ch apêl yn hwyr?

☐ Ydy — Os Ydy, mae'n rhaid ichi roi rhesymau isod pam bod eich apêl yn hwyr.

☐ Nac ydw — Os Nac ydy, ewch i Adran 7

Os yw'ch apêl yn hwyr, mae'n rhaid ichi roi esboniad pam. Bydd y tribiwnlys yn ystyried eich rhesymau a gall ymestyn y terfyn amser ichi. Os na fyddwch yn rhoi rhesymau pam bod eich apêl yn hwyr, efallai y bydd eich ffurflen apêl yn cael ei hanfon yn ôl atoch. Dywedwch wrthym isod pam fod eich apêl yn hwyr. Nid oes angen ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU.

Mae gan yr Uned Adennill Iawndal yr hawl i wrthwynebu apêl hwyr os ydynt o'r farn bod sail dros wneud hynny. Bydd y tribiwnlys yn ystyried unrhyw wrthwynebiad y mae'n ei wneud ac yn rhoi gwybod ichi beth yw'r canlyniad.

Ewch i Adran 7

## Adran 7 YNGHYLCH EICH DEWIS O WRANDAWIAD

Ystyrir apeliadau gan banel annibynnol. Byddwn yn trefnu i'ch apêl gael ei gwrando gan y panel a disgwylir ichi neu'ch cynrychiolydd fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno mynychu'r gwrandawiad, gallwch ofyn i'ch apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau. Dywedwch wrthym isod sut yr hoffech inni ddelio â'ch apêl.

Pa fath o wrandawiad ydych chi eisiau?

| | | |
|---|---|---|
| Rwyf eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawiad ynghylch fy apêl | ☐ | Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 8 |
| Rwyf eisiau i fy apêl gael ei phenderfynu ar sail y papurau | ☐ | Os ydych wedi ticio'r blwch hwn, ewch i Adran 9 |

Os byddwch yn newid eich meddwl ynghylch hyn, mae'n rhaid ichi ddweud wrthym cyn gynted â phosib oherwydd efallai y bydd yn rhy hwyr i newid hyn ar ôl trefnu'r gwrandawiad. Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adran 'Ynghylch Eich Dewis o Wrandawiad' yn y llyfryn canllaw SSCS1A

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at yr unigolyn (unigolion) eraill sy'n rhan o'r broses adennill iawndal i ofyn sut yr hoffent i'r apêl gael ei phenderfynu. Os bydd unrhyw unigolyn **arall** yn yr apêl yn dewis mynychu gwrandawiad, yna bydd gwrandawiad yn cael ei drefnu, ond dim ond os ydych eisiau mynychu y mae'n rhaid i chi wneud hynny.

## Adran 8 GWRANDAWIADAU AR LAFAR – EICH ANGHENION A'CH GOFYNION

Nid oes angen ichi ateb y cwestiynau hyn oni bai eich bod wedi dweud wrthym yn Adran 7 eich bod eisiau bod yn bresennol mewn gwrandawiad. Os ydych wedi gofyn i gael penderfyniad ynghylch eich apêl ar sail y papurau, anwybyddwch yr adran hon ac ewch yn syth i Adran 9.

Yn yr adran hon, mae angen inni ofyn nifer o gwestiynau ichi i'n helpu i drefnu gwrandawiad addas ar eich cyfer. Byddwn yn ceisio gwneud trefniadau yn ôl eich anghenion a'r dyddiadau rydych ar gael , ond efallai na fydd yn bosib gwneud hyn bob amser. Atebwch gwestiynau 1 i 4 er mwyn inni gael yr wybodaeth y mae arnom ei hangen. Os na fyddwch yn ateb rhai o'r cwestiynau, bydd rhaid inni gysylltu â chi eto a gallai hynny achosi oedi yn eich apêl. Nid oes rhaid ichi ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU wrth ateb y cwestiynau hyn.

**Cwestiwn 1 – Pryd rydych ar gael**

Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys o ddydd Llun i ddydd Gwener 10am tan 5pm, ac yn ein canolfannau gwrandawiadau mawr ar ddydd Sadwrn hefyd.

Er mwyn ichi allu dod i'r gwrandawiad, byddwn yn ceisio trefnu amser a dyddiad sy'n cyd-fynd â'r adegau pan rydych ar gael. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym yma os oes unrhyw ddyddiau o'r wythnos neu amseroedd yn ystod y dydd pan na allwch fod yn bresennol mewn tribiwnlys neu unrhyw ddyddiadau pan nad ydych ar gael oherwydd pethau fel gwyliau wedi'u trefnu eisoes neu apwyntiadau ysbyty. Dylech ystyried pa ddyddiadau rydych ar gael am y chwe mis nesaf.

Ydych chi ar gael i ddod i wrandawiad ar unrhyw adeg?

☐ Ydw

☐ Nac ydw — Os Nac ydych, dywedwch wrthym pa bryd na allwch fod yn bresennol yn y blwch isod.

**Cwestiwn 2 – Eich anghenion**

Dywedwch wrthym yma am unrhyw anghenion arbennig sydd gennych y mae angen i ni roi ystyriaeth iddynt wrth drefnu eich gwrandawiad. Gall hyn gynnwys pethau fel dolenni clyw neu fynediad ar gyfer pobl anabl.

Oes gennych chi unrhyw anghenion arbennig?

☐ Oes — Os Oes, dywedwch wrthym am hyn yn y blwch isod

☐ Nac Oes

**Cwestiwn 3 – Arwyddwr neu gyfieithydd ac anghenion ieithyddol**

Oes angen cyfieithydd neu arwyddwr arnoch i'ch helpu yn y gwrandawiad?

☐ Oes — Os Oes, dywedwch wrthym pa iaith a thafodiaith isod

☐ Nac oes

| Iaith neu fath o ddehonglydd iaith arwyddion | Tafodiaith |
| --- | --- |
| | |

Byddwn yn trefnu i gyfieithydd/dehonglydd proffesiynol fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Cyfeiriwch at yr adran 'Llenwi ffurflen SSCS1' yn y llyfryn canllaw SSCS1A i gael mwy o wybodaeth am gyfieithwyr/dehonglwyr.

**Cwestiwn 4 – Eich rhybudd o wrandawiad**

We will usually give you at least 14 days' notice of the date of the hearing. If you agree, we can also give you less than 14 days' notice. This may allow the hearing to be arranged more quickly if, for example, another hearing is cancelled and yours can replace it at short notice.

Ydych chi'n cytuno i gael llai na 14 diwrnod o rybudd o wrandawiad?

☐ Ydw ☐ Nac ydw

Ewch i Adran 9

## Adran 9 – EICH LLOFNOD

Rhaid i chi lofnodi eich ffurflen apêl er mwyn iddi fod yn ddilys. Os ydych wedi enwi cynrychiolydd yn Adran 5, bydd eich llofnod hefyd yn rhoi awdurdod i GLITEM ddelio â hwy pan fyddant yn cysylltu â ni ar eich rhan.

Llofnod

Dyddiad (DD/MM/BBBB)
__ __ / __ __ / __ __ __ __

Enw

Os ydych yn gynrychiolydd yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran yr unigolyn sy'n apelio, rhaid i chi anfon eu hawdurdod llofnodedig er mwyn i chi weithredu ar eu rhan gyda'r ffurflen hon.

---

**BETH I'W WNEUD NAWR**

Mae angen ichi anfon eich ffurflen apêl a **chopi o'r penderfyniad gorfodi i ailystyried yr ydych yn apelio yn ei erbyn i** Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Os ydych yn byw yng **Nghymru neu Loegr dylech** anfon eich apêl i:

**HMCTS SSCS Appeals Centre**
**PO Box 1203**
**BRADFORD**
**BD1 9WP**

**Os ydych yn byw yn yr Alban,** anfonwch eich apêl i:

**HMCTS SSCS Appeals Centre**
**PO Box 27080**
**GLASGOW**
**G2 9HQ**

Byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthych fod eich apêl wedi ein cyrraedd ac yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.

**RHESTR WIRIO**

Efallai y bydd y rhestr wirio hon yn eich helpu i sicrhau eich bod wedi rhoi'r holl wybodaeth y mae arnom ei hangen.

- ☐ **Rwyf wedi cynnwys copi o'r hysbysiad gorfodi i ailystyried (Adran 1).**
- ☐ **Rwyf wedi nodi fy rôl yn y broses iawndal (Adran 2)**
- ☐ **Rwyf wedi dweud beth yw sail fy apêl (Adran 6)**
- ☐ **Rwyf wedi dewis pa fath o wrandawiad rwyf eisiau (Adran 7)**
- ☐ **Rwyf i neu fy nghynrychiolydd wedi llofnodi fy ffurflen apêl (Adran 9)**

**Fformatau eraill**

Os oes arnoch angen y ffurflen hon mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras, ffoniwch 0300 123 1142 (llinell gymorth Saesneg) 0300 303 5170 (llinell gymorth Gymraeg) os ydych yn byw yng Nghymru neu Loegr, a 0300 790 6234 os ydych yn byw yn Yr Alban.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi yng nghyd-destun achosion tribiwnlys.
I gael manylion am y safonau rydym yn eu dilyn wrth brosesu'ch data, ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/hm-courts-and-tribunals-service/about/personal-information-charter
I gael copi papur o'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ffoniwch 0300 123 1024 Ffôn testun 18001 0300 123 1024. Os ydych yn ffonio o'r Alban, ffoniwch 0300 790 6234 Ffôn Testun 18001 0300 790 6234